Asiantaeth y Swyddfa Brisio

# Cais am wybodaeth

Ardrethu Annomestig

At ddefnydd y swyddfa yn unig

________________

________________

________________

**Mae'r Swyddfa Brisio yn un o Asiantaethau Gweithredol Cyllid a Thollau EM**

Cyfeiriad:

Rhif Cyfeirnod:

Rhowch y cyfeiriad a'r cyfeirnod yn union fel y dangosir ar y ffurflen neu llythyr gwreiddiol. Os oes angen gwneud unrhyw gywiriadau i'r cyfeiriad, teipiwch y rhain ar wahân yn y blwch cyfeiriad.

## Terfyn amser

You must return this form within 56 days from the day you receive it. If you do not return this form within 56 days you will be liable to a penalty of £100 [see paragraph 5A(1) of Schedule 9 to the Local Government Finance Act 1988 ("the Act")].

## Sut i gwblhau'r ffurflen hon

Efallai y bydd yn ddefnyddiol cael eich prydles neu eich cytundeb wrth law. Ym mhob rhan o'r ffurflen hon:

- ystyr yr eiddo yw'r eiddo a geir yn y panel cyfeiriad uchod neu unrhyw eiddo sy'n perthyn i'r dosbarth o eiddo a nodir yn y panel cyfeiriad uchod
- pan fo angen dyddiad, dylech nodi'r union ddyddiad os yw'n hysbys i chi. Os na wyddoch beth yw'r union ddyddiad, cwblhewch y blychau ar gyfer y mis a'r flwyddyn.

Os bydd angen mwy o le arnoch ar gyfer unrhyw gwestiwn wrth lenwi'r ffurflen argraffedig hon, gallwch barhau ar ddalen arall o bapur. Cofiwch sicrhau bod unrhyw ddalennau ychwanegol o bapur addefnyddiwch:

- yn nodi rhif y cwestiwn/cwestiynau perthnasol yn glir
- I wedi eu llofnodi a'u dyddio, ac

I wedi eu hatodi'n gadarn i'r ffurflen hon.

# Print Bras

Os hoffech fformatau Print Bras, ffoniwch neu e-bostiwch gan ddefnyddio'r manylion cyswllt gyferbyn.

Mae'r cais hwn am wybodaeth yn hysbysiad a anfonir atoch yn unol â'r pwerau a roddir i'r Swyddog Prisio o dan baragraff 5(1) o Atodlen 9 i'r Ddeddf. Mae'n ofynnol i chi, fel y perchennog neu'r deiliad, ddarparu gwybodaeth am yr eiddo (gweler paragraff 5(2) o Atodlen 9 i'r Ddeddf). Gallech gael eich erlyn os gwnewch ddatganiadau ffug.

## Pam mae eich gwybodaeth yn bwysig

Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gan bob busnes yng Nghymru a Lloegr i osod gwerthoedd ardrethol.

Mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r rhain i gyfrifo biliau ardrethi.

Sail y gwerth ardrethol yw rhent blynyddol yr eiddo pe bai ar gael ar y farchnad agored ar ddyddiad prisio penodol.

Mae darparu'r wybodaeth hon yn ein helpu i gael y gwerth ardrethol cywir ac yn sicrhau y gall eich cyngor lleol gyfrifo cyfraddau busnes cywir ar gyfer eich busnesau.

## Sut i gyflwyno'r ffurflen hon

Arbedwch eich PDF gorffenedig a'i anfon fel atodiad e-bost at:
specialist.rating@voa.gov.uk

Credaf y bydd y wybodaeth y gwneir cais amdani yn fy nghynorthwyo i gynnal y swyddogaethau a gyflwynwyd i mi neu a osodwyd arnaf gan neu o dan ran III o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (sy'n ymwneud ag ardrethu annomestig), gan gynnwys llunio Rhestr Ardrethu newydd neu gynnal Rhestr Ardrethu bresennol.

\- - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - -

Swyddog Prisio

VO 6061W (02/21)



Trowch y dudalen

*Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn un o Asiantaethau Gweithredol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, sy'n Rheolydd Data o dan y Ddeddf Diogelu Data. Rydym yn cadw gwybodaeth at ddibenion trethi a rhai swyddogaethau statudol penodol eraill fel y cânt eu pennu gan y Senedd. Gall y wybodaeth sydd gennym gael ei defnyddio ar gyfer unrhyw un o swyddogaethau Asiantaeth y Swyddfa Brisio.*

*Gallwn gael gwybodaeth amdanoch gan eraill, megis adrannau eraill y llywodraeth ac asiantaethau ac awdurdodau lleol. Gallwn gymharu gwybodaeth a gawn ganddynt hwy a gennych chi, â'r wybodaeth sydd gennym yn ein cofnodion eisoes.*

*Gallwn roi gwybodaeth i adrannau eraill y llywodraeth ac i asiantaethau ac awdurdodau lleol ond dim ond os yw'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny, er mwyn gwirio cywirdeb gwybodaeth, er mwyn atal neu ganfod trosedd a diogelu arian cyhoeddus.*

**Cwblhewch y ffurflen mewn inc du os gwelwch yn dda.**

## Rhan A - Yr eiddo a chi

**1.1** At ba ddiben y defnyddir yr eiddo?

**1.2** Ysgrifennwch enw a chyfeiriad y person neu'r cwmni sy'n ddeiliad yr eiddo

Os yw'r eiddo'n wag, rhowch 'gwag' yn y blwch hwn.

**1.3** Pryd y daeth y person neu'r cwmni yn ddeiliaid yr eiddo am y tro cyntaf

| Dydd | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|
| | | |

**1.3(i)** Nodwch eich math o ddaliadaeth

- ☐ Rhydd-ddeiliadaeth
- ☐ Lesddeiliadaeth hir ar rent daear
- ☐ Lesddeiliadaeth
- ☐ Tenantiaeth
- ☐ Trwydded

## *Rhan A* - Nodiadau

***Cwestiwn 1.1***
*Er enghraifft, cloddfa, chwarel, safle tirlenwi, gwaith briciau, neu unrhyw gyfuniad*

*Os yw'r eiddo yn wag, disgrifiwch ei ddefnydd mwyaf tebygol nesaf.*

***Cwestiwn 1.2***
***Os oes deiliaid yn yr eiddo:***

- *Rhowch enw llawn yr unigolyn neu'r cwmni sy'n ddeiliaid yr eiddo. Os oes mwy nag un deiliad, ysgrifennwch enw pob un ohonynt.*

  *Os yw'r eiddo yn wag, disgrifiwch ei ddefnydd mwyaf tebygol nesaf.*
- *Os mai cwmni yw deiliaid yr eiddo, ysgrifennwch gyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni ac enw Ysgrifennydd y Cwmni os yw'n hysbys i chi.*

***Cwestiwn 1.3***
*Rhowch y dyddiad y cafodd y person neu'r cwmni yr eiddo, hyd yn oed os na wnaethoch ddechrau masnachu neu dalu rhent o'r dyddiad hwnnw.*

***Cwestiwn 1.3(i)***
*Cyfeiria hyn at bob rhan o'r eiddo. Os yw rhan o'r eiddo yn 'Rhydd-ddeiliadaeth' a rhan yn 'Lesddeiliadaeth', ticiwch y ddau flwch.*

## Rhan B - Newidiadau

**2** Rhowch fanylion unrhyw addasiadau i adeiladau, cyfarpar neu beiriannau neu newidiadau i'r amodau gwaith a allai fod wedi effeithio ar y ffordd y mae'r gloddfa/chwarel/safle yn gweithio ers i chi lenwi'r ffurflen ddiwethaf.

## *Rhan B* - Nodiadau

***Cwestiwn 2***
*Mae'n bwysig bod unrhyw addasiad i'r rhestr ardrethu a wneir gan y Swyddog Prisio ar ôl derbyn y ffurflen hon yn adlewyrchiad llawn o amgylchiadau'r cyfnod y cyfeiria ato.*


Trowch y dudalen

## Rhan C - Allbwn

Os caiff mwynau neu ddeunyddiau eraill a gaiff eu gweithio ar yr eiddo eu symud oddi yno i'w gwerthu neu eu defnyddio, rhowch y wybodaeth ganlynol: *(rhowch yr allbwn mewn tunelli, metrau ciwbig, ac ati; o ran deunyddiau a gaiff eu gweithgynhyrchu megis briciau neu deils cewch nodi nifer yr eitemau a gynhyrchir)*

**3** a) Enw neu radd y cynnyrch:

b) Allbwn ar gyfer y flwyddyn galendr hyd at 31 Rhagfyr:

Blwyddyn

**Os dechreuodd yr allbwn ar ôl 1 Ionawr y llynedd, nodwch:**

c) Y dyddiad dechrau:

| Dydd | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|
| | | |

d) Allbwn hyd yn hyn:

**4** Nodwch fanylion unrhyw fwynau a gludwyd i'r safle i'w prosesu ac ati: *(rhowch fanylion y deunyddiau, y swm ac ati a nodwch pa un a ydynt eisoes wedi cael eu cynnwys yn yr adran ar allbwn)*

## Rhan D - Mewnbwn

Os caiff sbwriel neu ddeunydd gwastraff ei gludo i'r eiddo a'i adael yno yn barhaol, rhowch y manylion canlynol:
*(nodwch y swm mewn tunnelli, metrau ciwbig - cofiwch nodi a ydynt yn rhydd neu wedi'u cywasgu, galwyni ac ati)*

**5** a) Math o sbwriel neu ddeunyddiau gwastraff: *(gwastraff anadweithiol, domestig, masnachol, arbennig - nodwch y math o wastraff arbennig)*

b) Swm o bob math o wastraff ar gyfer blwyddyn galendr hyd at 31 Rhagfyr: *(mewn tunelli pan fo hynny'n hysbys, neu os yw mewn metrau ciwbig, nodwch a yw'n rhydd neu wedi'u cywasgu)*

Blwyddyn

c) Derbyniwyd taliad:

**Os dechreuodd y gwaith tipio ar ôl 1 Ionawr y llynedd, nodwch:**

d) Y dyddiad dechrau:

| Dydd | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|
| | | |

e) Mewnbwn hyd yn hyn:


Trowch y dudalen

## Rhan E - Deunyddiau a Adferwyd

Os oes unrhyw rai o'r deunyddiau a gaiff eu gweithio wedi eu hadfer, nodwch fanylion y deunyddiau a adferwyd, y swm a'r taliadau a dderbyniwyd am bob math o ddeunyddiau a p'un a ydynt wedi eu cynnwys yng nghwestiwn 9

**6** a) Math o ddeunydd:

b) Swm:

c) Taliad:

d) Os mai rhywun arall sy'n gwneud y gwaith adfer, rhowch eu henw a'u cyfeiriad:

## Rhan F - Nwy Tirlenwi

Nodwch y manylion canlynol os caiff nwy tirlenwi ei gynhyrchu

**7** a) Swm a gynhyrchir (Thermau ac ati):

b) Swm a werthwyd (Thermau ac ati):

c) Swm a ddefnyddir ar y safle (Thermau ac ati):

d) Taliad a dderbyniwyd:



Trowch y dudalen

**Hyd y gwn ac y credaf i mae'r wybodaeth rwyf wedi ei rhoi yn y ffurflen hon ac mewn unrhyw atodiadau yn gywir ac yn gyflawn.**

Llofnod

*Enw mewn PRIF LYTHRENNAU*

Dyddiad

| Dydd | Mis | Blwyddyn |
| --- | --- | --- |
| | | |

Safle

Fi yw Deiliad ☐ Perchennog ☐ Prydlesai ☐ Asiant y Deiliad ☐ Asiant y Perchennog ☐ Asiant y Prydlesai ☐

Rhif ffôn yn ystod y dydd

Cyfeiriad e-bost

## Rhan H - Manylion cyswllt

Petaech yn dymuno i ni gysylltu â rhywun arall os oes gennym unrhyw gwestiynau ynghylch y ffurflen hon, a fyddech gystal â rhoi eu manylion yma

Enw mewn *PRIF LYTHRENNAU*

Rhif ffôn yn ystod y dydd

Cyfeiriad e-bost

Cyfeiriad gohebiaeth

**Dychwelwch y ffurflen i:** Valuation Office Agency, Durham Customer Service Centre, Wycliffe House, Green Lane, Durham DH1 3UW **neu os yw'n cwblhau'n ddigidol,** cadwch y PDF a'i ddychwelyd fel atodiad e-bost i specialist.rating@voa.gov.uk

*Mae'r Swyddfa Brisio yn Asiantaeth Weithredol Cyllid a Thollau EM Sydd yn Rheolwr Data dan Ddeddf Gwarchod Data. Daliwn wybodaeth at ddibenion trethi, a swyddogaethau penodol statudol eraill fel y'u pennir gan Y Senedd. Gellid defnyddio'r wybodaeth a ddaliwn at unrhyw rai o swyddogaethau Asiantaeth y Swyddfa Brisio.*

*Fe allem gael gwybodaeth amdanoch chi oddi wrth eraill, fel adrannau llywodraethol arall ac asiantaethau ac awdurdodau lleol. Fe allem gymharu'r wybodaeth ni'n derbyn oddi wrthynt ac oddi wrthych chi, gyda'r hyn sydd yn eu'n cofnodion yn barod.*

*Fe allem roi gwybodaeth i adrannau llywodraethol arall ac asiantaethau ac awdurdodau lleol, os gwnawn, fe fydd yn unig yn unol a'r modd y mae'r gyfraith yn caniatáu i wirio cywirdeb gwybodaeth, atal a datrys troseddau a diogelu cronfeydd cyhoeddus.*

## Gwybodaeth Neu Sylwadau Pellach (os oes rhai)

Rhowch fanylion pellach yma os nad oes digon o le i orffen yr atebion i'r cwestiynau uchod neu os oes angen esboniad neu eglurhad pellach i unrhyw gwestiynau.

| Rhif Cwestiwn: | Gwybodaeth/Sylwadau pellach: |
| --- | --- |
| | |

## Rhagor o wybodaeth neu sylwadau (os oes rhai)

Rhowch ragor o wybodaeth yma os nad oes digon o le i chi gwblhau eich atebion i unrhyw rai o'r cwestiynau blaenorol neu os oes angen archwilio neu egluro unrhyw gwestiwn/gwestiynau ymhellach

| Rhif y Cwestiwn: | Manylion: |
|---|---|
| | **Cwblhewch y datganiad ar dudalen 5 cyn dychwelyd yr Hysbysiad hwn ataf** |

## Rhagor o wybodaeth neu sylwadau (os oes rhai)

Rhowch ragor o wybodaeth yma os nad oes digon o le i chi gwblhau eich atebion i unrhyw rai o'r cwestiynau blaenorol neu os oes angen archwilio neu egluro unrhyw gwestiwn/gwestiynau ymhellach

| Rhif y Cwestiwn: | Manylion: |
| --- | --- |
| | **Cwblhewch y datganiad ar dudalen 5 cyn dychwelyd yr Hysbysiad hwn ataf** |

## Rhagor o wybodaeth neu sylwadau (os oes rhai)

Rhowch ragor o wybodaeth yma os nad oes digon o le i chi gwblhau eich atebion i unrhyw rai o’r cwestiynau blaenorol neu os oes angen archwilio neu egluro unrhyw gwestiwn/gwestiynau ymhellach

| Rhif y Cwestiwn: | Manylion: |
|---|---|
| | **Cwblhewch y datganiad ar dudalen 5 cyn dychwelyd yr Hysbysiad hwn ataf** |